

MEDDYGFA

WAUNFAWR + LLANRUG

SURGERY

Hysbysiad Preifatrwydd (Cleifion a Gofalwyr)

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn esbonio sut mae Meddygfa Waunfawr yn defnyddio'ch data bersonol.

Mae Meddygfa Waunfawr yn Bractis Meddyg Teulu sy'n gweithio yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Rydym yn rhoi gwasanaeth i boblogaeth o 5829 o gleifion gan weithio ar draws 2 safle. Mae'r Feddygfa yn ceisio sicrhau'r safon uchaf o ofal meddygol i'n cleifion.

Meddygfa Waunfawr yw'r rheolydd ar gyfer yr wybodaeth bersonol rydym yn ei phrosesu. Mae'r practis wedi ymrwmo i amddiffyn eich gwybodaeth bersonol ac i barchu eich preifatrwydd. Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i esbonio sut rydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch fel claf cofrestredig yn y practis.

Pa wybodaeth yr ydym yn ei gasglu amdanoch?

Byddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch ac mewn perthynas â'ch iechyd a'r gwasanaethau gofal iechyd rydych wedi'u derbyn. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth bersonol fel eich rhif GIG, enw, cyfeiriad, manylion cyswllt, dyddiad geni a pherthynas agosaf.

Byddwn hefyd yn casglu gwybodaeth bersonol sensitif amdanoch (sef 'data categori arbennig') sy'n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â'ch iechyd (apwyntiadau, ymweliadau, gwybodaeth am driniaethau, canlyniadau profion, pelydrau-X neu adroddiadau), yn ogystal â gwybodaeth yn ymwneud â'ch cyfeiriadedd rhywiol, hil neu grefydd.

Mae'r holl wybodaeth a gesglir ac a gedwir amdanoch yn rhan o'ch cofnod meddygol ac fe'i cedwir yn bennaf i sicrhau eich bod yn derbyn y driniaeth a'r gofal gorau posibl.

Sut yr ydym yn casglu eich data bersonol?

Caiff yr wybodaeth a gadwn ei chasglu trwy lwybrau amrywiol. Gallai'r rhain gynnwys:

- Rhyngweithio uniongyrchol â chi fel ein claf pan fyddwch yn cofrestru â ni am ofal a thriniaeth, yn ystod ymgynghoriadau â staff y practis ac wrth i chi danysgrifio i wasanaethau, er enghraifft, cylchlythyrau, negeseuon testun, recordiadau ffôn neu greu cyfrif ar gyfer gwasanaethau ar-lein.
- Yn anuniongyrchol o ddarparwyr gofal iechyd eraill. Pan fyddwch yn mynd i sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol, er enghraifft, apwyntiadau meddyg teulu y tu

allan i oriau neu ymweliadau â'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys a rhyngweithio â Gofal Cymdeithasol, byddant yn rhoi gwybod i ni fel bod eich cofnod meddyg teulu yn cael ei gadw'n gyfredol.

- Trwy ddyfeisiau monitro y gellir eu gwisgo fel monitorau pwysedd gwaed
- Nid ydym yn defnyddio technolegau wedi'u hawtomeiddio i gasglu data am ddefnyddwyr ein gwefan ar hyn o bryd.

Sut ydym yn defnyddio eich gwybodaeth?

Defnyddir yr wybodaeth y casglwn amdanoch yn bennaf ar gyfer eich gofal a'ch triniaeth uniongyrchol, ond gellid eu defnyddio hefyd at y dibenion canlynol:

- Rheoli gwasanaethau gofal iechyd
- Cyfranogiad mewn Rhaglenni Sgrinio Cenedlaethol
- Gofynion Casglu Data Cenedlaethol
- Ymchwil feddygol ac archwilio clinigol
- Gofynion cyfreithiol
- Diogelwch ein staff a'n safle
- I weithio'n effeithiol gyda sefydliadau eraill sy'n gofalu amdanoch
- I gefnogi iechyd y cyhoedd
- I sicrhau bod ein gwasanaeth yn gallu bodloni anghenion y dyfodol i'r ansawdd gorau posib

Partneriaid y gallem rannu eich gwybodaeth â hwy

Efallai y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth, yn amodol ar gytundeb ynghylch sut y caiff ei defnyddio â'r sefydliadau canlynol:

- Ymddiriedolaethau NHS / Ymddiriedolaethau eraill / Byrddau Iechyd eraill
- Meddygfeydd eraill megis y rhai sy'n ran o glwstwr Arfon
- Gwasanaeth Meddygol y tu allan i oriau
- Canolfannau Diagnostig neu Driniaeth
- Darparwyr Annibynnol megis Deintyddion, Optegwyr a Fferyllwyr
- Darparwyr y Sector Breifat (ysbytai preifat, cartrefi gofal, hosbisau, contractwyr sy'n rhoi gwasanaethau i'r GIG)
- Gwasanaethau Arbennigol
- Gwasanaeth Ambiwlans
- Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Gwasanaethau a rennir trwy GIG Cymru
- Gwasanaeth Cyfreithiol a Risg
- Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Partneriaeth Ansawdd a Gwella Gofal Iechyd
- Awdurdodau Lleol
- Gwasanaethau Addysg
- Gwasanaeth Tân ac Achub

- Gwasanaethau Heddlu a Barnwrol
- Darparwyr Sector Gwirfoddol
- Llysoedd
- Cyfreithwyr
- Yswiriant Bywyd a Chwmnïau Yswiriant /Cyflogwyr/ Meddygon Iechyd Galwedigaethol

Efallai y byddwn hefyd yn defnyddio cwmnïoedd trydydd parti allanol (proseswyr data) i brosesu eich gwybodaeth bersonol. Bydd y cwmnïoedd hyn wedi'u rhwymo gan gytundebau dan contract i sicrhau y caiff yr wybodaeth ei chadw'n gyfrinachol ac yn ddiogel. Mae hyn yn golygu na allant wneud unrhyw beth â'ch gwybodaeth bersonol oni bai ein bod wedi eu cyfarwyddo i wneud hynny. Ni fyddant yn rhannu eich gwybodaeth bersonol ag unrhyw sefydliad ar wahân i ni. Byddant yn storio'r wybodaeth yn ddiogel ac yn ei chadw am y cyfnod y byddwn yn eu cyfarwyddo i wneud hynny.

Byddwn angen cydsyniad wedi'i lofnodi gennych cyn datgelu gwybodaeth i Gyfreithwyr, Gwasanaethau Cymdeithasol a Chwmnïau Sicrwydd Bywyd neu Yswiriant/Cyflogwyr/Meddygon Iechyd Galwedigaethol. Ni fyddwn fel arfer yn rhyddhau manylion am unigolion eraill sydd wedi eu cynnwys yn eich cofnodion meddygol (e.e. partner, plant, rhieni) oni bai bod gennym eu cydsyniad hwy hefyd. Dim ond yr wybodaeth feddygol berthnasol a rennir yn unol â'ch cydsyniad. Mae gennych yr hawl, pe dymunwch, i weld adroddiadau a baratowyd ar gyfer Cwmnïau Yswiriant, Cyflogwyr neu Feddygon Iechyd Galwedigaethol cyn iddynt gael eu hanfon.

Rhannu eich Gwybodaeth heb Gydsyniad

Fel arfer byddwn yn gofyn am eich cydsyniad, ond bydd adegau pan y bydd yn ofynnol i ni yn gyfreithlon i rannu eich gwybodaeth heb eich cydsyniad, er enghraifft:

- Lle mae risg difrifol o niwed neu gam-drin i chi neu eraill
- Pan fydd trosedd ddifrifol, fel ymosodiad, yn cael ei archwilio neu lle gellir ei atal
- Lle byddwn yn dod ar draws afiechydon heintus a all beryglu diogelwch eraill, fel llid yr ymennydd neu'r frech goch (ond nid gwybodaeth sensitif fel HIV/AIDS)
- Lle bydd Gorchymyn Llys ffurfiol wedi'i roi
- Lle bydd gofyn cyfreithiol e.e. os ydych wedi cyflawni Trosedd Traffig y Ffordd

Mae'r Feddygfa'n ymrwmo i sicrhau bod eich preifatrwydd yn cael ei ddiogelu.

Ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol

Bydd y practis yn defnyddio ac yn rhannu eich gwybodaeth dim ond pan fydd sail gyfreithiol ar gyfer gwneud hynny.

Fe'n llywodraethir gan ddarnau allweddol o ddeddfwriaethau /cyfarwyddyd sef y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (DU); Deddf Gwarchod Data 2018; Deddf Hawliau Dynol 2018 (Erthygl 8); Deddf Mynediad at Gofnodion Iechyd 1990; Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000; Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012, 2105; Deddf Hawlfraint Cynllunio a Chleifion 1988; Deddf Ail-ddefnyddio Rheoliadau Gwybodaeth y Sector

Gyhoeddus 2015; Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004; Deddf Camddefnyddio Cyfrifaduron 1990; Dyletswydd Cyfraith Cyffredin Cyfrinachedd; Rheoli Diogelu Gwybodaeth – Côt Ymarfer GIG.

Mae'r seiliau cyfreithiol ar gyfer y rhan fwyaf o'n prosesu yn ymwneud â'ch gofal a'ch triniaeth uniongyrchol:

- Erthygl 6(1)(e) – Mae prosesu yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a weithredir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a ymddiriedir yn y rheolwr;
Lle mae gennym rhwymedigaeth gyfreithiol benodol sy'n mynnu prosesu data personol, dyma'r sail gyfreithiol:
- Erthygl 6(1)(c) – Mae prosesu yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol y mae'r rheolwr yn ddarostyngedig iddi.

Lle rydym yn prosesu data categori arbennig, er enghraifft, data yn ymwneud ag iechyd, tarddiad ethnig neu hil neu gyfeiriadedd rhywiol, mae angen i ni fodloni amod ychwanegol o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Lle rydym yn prosesu data personol categori arbennig at ddibenion yn ymwneud â chomisiynu a darparu gwasanaethau iechyd, dyma'r amod:

- Erthygl 9(2)(h) – Mae prosesu yn angenrheidiol at ddibenion meddygaeth ataliol neu alwedigaethol, ar gyfer asesu gallu'r gweithiwr i weithio, diagnosis meddygol, darparu iechyd neu ofal cymdeithasol neu driniaeth neu reoli systemau a gwasanaeth iechyd neu ofal cymdeithasol; neu
- Erthygl 9(2)(i) – Mae prosesu yn angenrheidiol am resymau lles y cyhoedd ym maes iechyd y cyhoedd, fel amddiffyn rhag bygythiadau trawsffiniol difrifol i iechyd neu sicrhau safonau uchel o ansawdd a diogelwch gofal iechyd ac o gynhyrchion meddyginiaethol neu ddyfeisiau meddygol.

Efallai y bydd y practis yn prosesu eich data personol at ddibenion ymchwil. Mewn amgylchiadau o'r fath, dyma ein sail gyfreithiol ar gyfer gwneud hynny:

- Erthygl 6 (1)(e) – Mae prosesu yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a weithredir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a ymddiriedir yn y rheolwr;

Lle rydym yn prosesu data personol categori arbennig at ddibenion ymchwil, dyma'r sail gyfreithiol ar gyfer gwneud hyn:

- Erthygl 9 (2)(a) – Rydych wedi rhoi eich cydsyniad penodol
- Erthygl 9(2)(j) – Mae prosesu yn angenrheidiol at ddibenion ymchwil wyddonol neu hanesyddol neu at ddibenion ystadegol.

Efallai y bydd y practis hefyd yn prosesu data personol at ddibenion neu mewn cysylltiad ag achosion cyfreithiol (gan gynnwys achosion cyfreithiol arfaethedig), at ddibenion cael cyngor cyfreithiol, neu at ddibenion sefydlu, practis neu amddiffyn hawliau cyfreithiol. Lle rydym yn prosesu data personol at y dibenion hyn, dyma'r sail gyfreithiol ar gyfer gwneud hyn:

- Erthygl 6(1)(e) – Mae prosesu yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a weithredir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a ymddiriedir yn y rheolwr; neu
- Erthygl 6(1)(c) – Mae prosesu yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol y mae'r rheolwr yn ddarostyngedig iddi; neu
- Erthygl 6(1)(f) – Mae prosesu yn angenrheidiol at ddibenion y buddion cyfreithlon y mae'r rheolydd yn eu dilyn.

Lle rydym yn prosesu categori arbennig o ddata personol at y dibenion hyn, dyma'r sail gyfreithiol ar gyfer gwneud hyn:

- Erthygl 6(2)(f) – Mae'r prosesu yn angenrheidiol ar gyfer sefydlu, practis neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol; neu
- Erthygl 9(2)(g) – Mae prosesu yn angenrheidiol am resymau o ddiddordeb cyhoeddus sylweddol.

Mewn amgylchiadau prin, efallai y bydd angen i ni rannu gwybodaeth ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith neu amddiffyn llesiant pobl eraill. Er enghraifft, diogelu plant neu oedolion sy'n agored i niwed. Mewn amgylchiadau o'r fath, dyma'r sail gyfreithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth:

- Erthygl 6(1)(c) – Mae prosesu yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol y mae'r rheolwr yn ddarostyngedig iddi; neu
- Erthygl 6(1)(d) – Mae prosesu yn angenrheidiol er mwyn amddiffyn diddordeb hanfodol testun y data neu berson naturiol arall; neu
- Erthygl 6(1)(e) – Mae prosesu yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a weithredir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a ymddiriedir yn y rheolwr;

Lle rydym yn rhannu categorïau arbennig o ddata personol at ddibenion diogelu, dyma'r sail gyfreithiol ar gyfer gwneud hyn:

- Erthygl 9(2)(g) – Mae prosesu yn angenrheidiol am resymau o ddiddordeb cyhoeddus sylweddol; Deddf Diogelu Data 2018 S10 ac Atodlen 1, Paragraff 18 'Diogelu plant ac unigolion mewn perygl'

Sut ydym ni'n cadw eich Gwybodaeth yn Gyfrinachol ac yn Ddiogel?

Rydym wedi ymrwmo i ddiogelu eich preifatrwydd a byddwn ond yn defnyddio gwybodaeth a gasglwyd yn gyfreithiol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data 1998, Erthygl 8 o'r Deddf Hawliau Dynol, Cyfraith Cyffredin Cyfrinachedd, Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a Chodau'r GIG ar Gyfrinachedd a Diogelwch. Rhaid i bawb sy'n gweithio yn y GIG neu iddo ddefnyddio gwybodaeth bersonol mewn modd diogel a chyfrinachol.

Byddwch yn ymwybodol y bydd staff y feddygfa nad ydynt yn glinigol yn cael mynediad at eich gwybodaeth er mwyn gwneud tasgau sy'n galluogi gweithredu'r Feddygfa. Mae'r rhain yn cynnwys , ond nid yn gyfyngedig i:

- Teipio llythyrau cyfeirio at Feddygon Ymgynghorol Ysbyty neu Weithwyr Proffesiynol Iechyd cysylltiedig
- Agor llythyrau gan ysbytai a Meddygon Ymgynghorol
- Sganio llythyrau clinigol, adroddiadau a llawer o ddogfennau eraill nad ydynt ar gael yn electronig
- Llungopïo neu argraffu dogfennau ar gyfer cyfeirio at feddygon ymgynghorol
- Trin, argraffu, llungopïo a chludo adroddiadau sicrwydd meddygol, cyfreithiol a bywyd a dogfennau cysylltiedig eraill
- Pan fyddwch yn cofrestru gyda'r Feddygfa efallai byddwn yn gofyn am dystiolaeth o'ch ID - mae hyn i sicrhau nad oes neb yn ceisio'ch cofrestru chi yn y Feddygfa gan ddefnyddio'ch hunaniaeth ond heb eich gwybodaeth. Gallwn eich sicrhau y bydd unrhyw gopïau o ID y byddwn yn ei gymryd ar y pwynt hwnnw yn cael eu dinistrio unwaith bydd gennym gadarnhad o'ch cofrestriad gan GIG Cymru. Bydd hyn yn cymryd 2-3 diwrnod ar y mwyaf.

Er mwyn diogelu eich cyfrinachedd, ni fyddem fel arfer yn datgelu unrhyw wybodaeth feddygol amdanoch dros y ffôn, neu drwy ffacs, oni bai ein bod yn sicr ein bod yn siarad â chi. Golyga hyn na fyddwn yn datgelu gwybodaeth i'ch teulu, ffrindiau a chydweithwyr am unrhyw faterion meddygol o gwbl, oni bai ein bod yn gwybod bod gennym eich cydsyniad i wneud hynny.

Byddwn ond yn anfon eich gwybodaeth ymlaen os bydd yn angenrheidiol gwneud hynny. Ni fyddwn yn datgelu gwybodaeth amdanoch i drydydd parti heb eich caniatâd oni bai bod amgylchiadau eithriadol, fel pan fydd y gyfraith yn gofyn amdano.

Bydd pawb yn y feddygfa (p'un ai a gyflogwyd gan y meddygon, neu ar gyfer y Bwrdd Iechyd Lleol) yn arwyddo cytundeb cyfrinachedd sy'n egluro'n glir, eu dyletswyddau o ran gwybodaeth iechyd personol a goblygiadau torri'r ddyletswydd honno.

System Gyfrifiadurol

Mae'r Feddygfa hon yn gweithredu System Gyfrifiadur Clinigol lle bydd staff GIG yn cofnodi gwybodaeth yn ddiogel. Bydd y wybodaeth hon yna'n cael ei rannu gyda Chlinigwyr eraill fel bod pawb sy'n gofalu amdanoch yn cael y wybodaeth lawn am eich hanes meddygol perthnasol.

Rheoli Meddyginiaethau

Efallai bydd y feddygfa'n gwneud Adolygiadau Rheoli Meddyginiaethau o feddyginiaethau a ragnodwyd i'w cleifion. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnal adolygiad o feddyginiaethau a ragnodwyd i sicrhau bod cleifion yn derbyn y triniaethau mwyaf priodol, diweddar a chost effeithiol. Darperir y gwasanaeth hwn gan ein clinigwyr a Fferyllwyr a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd Lleol.

Crynodeb Gofal Brys (ECS)

Bydd gwybodaeth gofal brys fel eich enw, dyddiad geni, enw eich Meddyg Teulu, unrhyw feddyginiaethau y mae'ch Meddyg Teulu wedi'u rhagnodi i chi, unrhyw feddyginiaethau y mae gennych alergedd atynt neu'n ymateb yn wael iddynt, yn cael ei rannu gyda'r gwasanaeth y Tu Allan i Oriau gan efallai bydd hyn yn bwysig os bydd angen gofal meddygol brys arnoch pan fydd y Feddygfa ar gau.

Gall staff y GIG (Meddygon, Nyrsys, Adran Achosion Brys, Gwasanaeth Ambiwlans) edrych ar eich ECS os bydd angen iddynt eich trin pan fydd y feddygfa ar gau. Byddent yn gofyn am eich cydsyniad cyn iddynt edrych ar eich cofnodion. Mewn achos brys ac os ydych yn anymwybodol, efallai bydd staff yn edrych ar eich ECS heb eich cydsyniad er mwyn eu helpu i roi'r gofal gorau posibl i chi. Pryd bynnag fydd staff GIG yn edrych ar eich ECS, cedwir cofnod ohono bob amser fel ein bod yn gallu gwirio pwy sydd wedi edrych ar eich gwybodaeth.

Marchnata i Gleifion

Mae'n rhaid i ni dderbyn eich caniatâd i anfon hysbysiadau atoch ynghylch Gwasanaethau Clinigol drwy neges destun, neges llais ffôn, E-bost neu lythyr. Gall hyn gynnwys negeseuon yn eich hatgoffa o'ch apwyntiad, gwybodaeth am glinigau ffliw, gwybodaeth hyrwyddo iechyd, gohiriadau i glinigau a newidiadau mewn darpariaeth gwasanaeth. Gallwch ddewis rhoi eich caniatâd neu beidio wrth lenwi Holiadur Iechyd pan yn cofrestru gyda'r feddygfa o'r newydd. Mae gennych hawl i dynnu eich caniatâd yn ôl o'r gwasanaeth hysbysiadau neges ar unrhyw adeg drwy gysylltu â'r feddygfa. Dylai cleifion sydd ar fin troi'n 16 oed gysylltu gyda'r feddygfa i ddiweddarau eu holl fanylion cyswllt gan y bydd y cyfrifoldeb yn trosglwyddo oddi wrth eu rhiant/gwarcheidwad iddynt hwy. Mae cleifion presennol yn cael eu cynnwys yn awtomatig. Os nad ydych yn dymuno derbyn hysbysiadau o'r fath, cysylltwch gyda'r feddygfa os gwelwch yn dda.

Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth gydag unrhyw drydydd parti ar gyfer pwrpas marchnata.

Eich Hawliau

Mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yn cynnwys nifer o hawliau. Yn gyffredinol, rhaid i ni ymateb i geisiadau mewn perthynas â'r hawliau o fewn un mis, er bod rhai eithriadau i hyn.

Mae argaeledd rhai o'r hawliau hyn yn dibynnu ar y sail gyfreithiol sy'n berthnasol mewn perthynas â phrosesu eich data personol, ac mae rhai amgylchiadau eraill lle na fyddwn yn cadarnhau cais i practis hawl. Mae eich hawliau a sut maent yn berthnasol wedi'u disgrifio isod.

Yr hawl i gael gwybod

Mae eich hawl i gael gwybod wedi'i bodloni gan ddarpariaeth yr hysbysiad preifatrwydd hwn, yn ogystal â gwybodaeth debyg pan fyddwn yn cyfathrebu â chi'n uniongyrchol – ar y pwynt cyswllt.

Yr hawl i gael mynediad

Mae gennych yr hawl i gael copi o ddata personol rydym yn eu cadw amdanoch chi, yn ogystal â darnau eraill o wybodaeth a nodir yn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, er bod rhai eithriadau i'r hyn y mae'n ofynnol i ni ei ddatgelu.

Sefyllfa lle na allwn ddarparu'r holl wybodaeth yw lle y byddai datgelu, ym marn gweithiwr iechyd proffesiynol priodol, yn debygol o achosi niwed difrifol i'ch iechyd corfforol neu feddyliol, neu iechyd corfforol neu feddyliol rhywun arall.

Yr hawl i gywiro

Mae gennych yr hawl i ofyn i ni gywiro unrhyw ddata anghywir sydd gennym amdanoch.

Yr hawl i gael gwared ar ddata ('yr hawl i'r data gael eu hanghofio')

Mae gennych yr hawl i ofyn i ni gael gwared ar ddata personol sydd gennym amdanoch. Nid yw hon yn hawl absoliwt ac, yn dibynnu ar y sail gyfreithiol sy'n berthnasol, efallai y bydd gennym seiliau cyfreithiol pwysicach i barhau i brosesu'r data.

Yr hawl i Gyfyngu ar Brosesu

Mae gennych yr hawl i ofyn i ni gyfyngu prosesu data personol sydd gennym amdanoch. Gallwch ofyn i ni wneud hyn, er enghraifft, lle rydych yn dadlau pa mor gywir yw'r data.

Yr hawl i gludadwyedd data

Mae'r hawl hon ar gael dim ond pan mai cydsyniad yw'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, neu at ddibenion contract rhyngoch chi a'r practis. Er mwyn i hyn fod yn berthnasol, rhaid i'r data gael eu cadw ar ffurf electronig. Yr hawl yw derbyn y data mewn fformat electronig a ddefnyddir yn gyffredin.

Yr hawl i wrthwynebu

Mae gennych yr hawl i wrthwynebu prosesu data personol amdanoch ar seiliau yn ymwneud â'ch sefyllfa benodol. Nid yw'r hawl yn absoliwt, ac efallai y byddwn yn parhau i ddefnyddio'r data os gallwn ddangos seiliau cyfreithiol cadarn, oni bai bod eich gwrthwynebiad yn ymwneud â marchnata.

Hawliau yn ymwneud â gwneud penderfyniadau unigol awtomatig, gan gynnwys proffilio

Mae gennych yr hawl i wrthwynebu bod yn destun penderfyniad yn seiliedig ar brosesu awtomatig yn unig, gan gynnwys proffilio. Os byddwn yn gwneud unrhyw benderfyniadau awtomatig, byddwn yn cofnodi hyn yn ein hysbysiad preifatrwydd ac yn sicrhau eich bod yn cael y cyfle i ofyn bod y penderfyniad yn ymwneud ag ystyriaeth bersonol.

Yr hawl i gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth

Mae gennych yr hawl i gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth os nad ydych yn hapus ag unrhyw agwedd ar weithdrefnau prosesu data personol y practis, neu os ydych yn credu nad ydym yn bodloni'n cyfrifoldebau fel rheolydd data. Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Information Commissioner's Office

Wycliffe House

Water Lane,

Wilmslow, SK9 5AF

Gwefan: www.ico.org.uk

Ffôn: 0303 123 1113

Cadw'ch Gwybodaeth Bersonol / Storio'ch Gwybodaeth

Mae'n ofynnol yn unol â chyfraith y DU i ni gadw eich gwybodaeth a'ch data am gyfnod penodedig. Cyfeirir ato'n aml fel y cyfnod cadw. Bydd y practis yn cadw'ch gwybodaeth yn unol â pholisi rheoli cofnodion y practis. Gofynnwch i staff y dderbynfa os hoffech weld copi.

Newid Manylion

Mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni yn syth os bydd unrhyw ran o'ch manylion megis eich enw, cyfeiriad, rhif ffôn cartref neu'ch rhif ffôn symudol wedi newid neu os bydd unrhyw ran o'ch manylion fel eich dyddiad geni yn anghywir er mwyn i hyn gael ei newid. Mae gennych gyfrifoldeb i roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau fel bod ein cofnodion yn aros yn gywir a chyfredol bob amser.

Sut i Gysylltu â Ni

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ein hysbysiad preifatrwydd neu am yr wybodaeth a gedwir amdanoch, cysylltwch â:

Rheolwr y Feddygfa, Meddygfa Waunfawr, Liverpool House, Waunfawr, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4YY.

Ffôn: 01286 650922.

Ffôn

Bydd galwadau i fewn ac allan o'r feddygfa yn cael eu recordio i sicrhau diogelwch ac ansawdd.

E-bost

Gallwch gysylltu gyda'r feddygfa trwy e-bost ar gyfer gwneud cais am alwad yn ol gan aelod o'r tîm, gwneud cais am ail-brescripsiwn, anfon lluniau meddygol neu ar gyfer ymholiadau cyffredinol. **Ni ddylech ddefnyddio e-bost fel cyfrwng cyswllt ar gyfer materion neu achosion brys.**

Mae gan pob aelod o'n staff gweinyddol fynediad i'n cyfrif e-bost. Byddwn yn ymateb i negeseuon o fewn 3 diwrnod gwaith. Os ydych yn anfon e-bost i'r feddygfa, mae hyn yn rhoi caniatâd i ni gysylltu hefo chi. Pan fyddwch yn anfon e-bost i'r feddygfa, ni allwn warantu bob amser y bydd yr e-bost yn ddiogel rhag cael ei ryng-gipio neu hacio. Cydnabyddir e-bost fel cofnod meddygol a bydd yn cael ei ychwanegu i'ch nodiadau meddygol ac yn aros ar eich cofnod yn barhaol mewn cydymffurfiaeth â'r 'Records Retention Schedule'.

Fy Iechyd Ar-lein (MHO)

Mae cofrestru ar gyfer Fy Iechyd Ar-lein yn eich galluogi chi i drefnu apwyntiad Meddyg Teulu rheolaidd 24 awr y dydd, gohirio apwyntiadau nad oes eu hangen mwyach, gwirio eich ail bresgripsiynau, archebu ail bresgripsiynau a gwneud newidiadau i'ch e-bost a'ch rhif ffôn symudol lle bo angen. Gall clefion dros 16 mlwydd oed gofrestru i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn neu ddad-gofrestru ar unrhyw adeg. Holwch staff y dderbynfa os bydd arnoch angen gwybodaeth neu gymorth.

Eich Rhif GIG

Mae gan bawb sydd wedi cofrestru gyda'r GIG yng Nghymru a Lloegr eu rhif GIG unigryw. Mae cynnwys 10 digid - er enghraifft 123 456 7890. Caiff eich rhif GIG ei ddefnyddio gan staff gofal iechyd i'ch hadnabod yn gywir. Mae'n gam pwysig tuag at wella diogelwch eich gofal iechyd. Er mwyn gwella diogelwch a chywirdeb gwiriwch eich rhif GIG ar ohebiaeth y mae'r GIG yn ei anfon atoch bob amser.

Os nad ydych yn gwybod eich rhif GIG, gofynnwch i'r Feddygfa. Efallai bydd gofyn i chi ddangos tystiolaeth o'ch hunaniaeth er enghraifft pasport neu ddull arall o hunaniaeth. Mae hyn er mwyn diogelu'ch preifatrwydd.

Manylion Cyswllt ein Swyddog Gwarchod Data

Mae'n ofynnol i'r Practis benodi swyddog gwarchod data (DPO). Mae hon yn rôl hanfodol i hwyluso atebolrwydd a chydymffurfiaeth y practis gyda'r Ddeddf Gwarchod Data Brydeinig.

Ein Swyddog Gwarchod Data yw:

Iechyd a Gofal Digidol Cymru,
Llywodraethu Gwybodaeth, Gwasanaeth Cymorth y Swyddog Diogelu Data
4ydd Llawr, Tŷ Glan-yr-Afon
21 Heol Ddwyreiniol y Bont-faen
Caerdydd
CF11 9AD
E-bost: DHCWGMPDPO@wales.nhs.uk

Rydym yn adolygu ein Hysbysiad Preifatrwydd yn rheolaidd. Adolygwyd yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn ym Mehefin 2021 ac fe'i adolygir nesaf ym Mehefin 2022.